**Gosod deialog ar ddalen mewn stori**

Doedd dim brys arno nawr i fynd drwodd.
'Ie, syr?' meddai
'Rwy i mewn tipyn o berygl,' meddai'r marchog, 'ac fe hoffwn i ti wneud cymwynas â fi...'
'Cymwynas, syr? Ond...'

Ydych chi wedi sylwi sut mae'r ddeialog hon wedi cael ei gosod ar y ddalen?

Pan fydd rhai'n siarad mewn stori, mae angen cofio cadw at reolau.

RHEOL 1:
Pan fydd rhywun yn siarad, mae angen dyfynodau i agor a chau'r hyn sy'n cael ei ddweud, e.e. 'Mae hi'n oer,' meddai'r dyn.

RHEOL 2:
Mae angen paragraff newydd bob tro mae rhywun newydd yn dechrau siarad.

e.e.
Cerddodd Dai i'r siop.
'Bore da,' meddai Dai.
'Bore da,' atebodd y siopwr.

RHEOL 3:
Mae angen rhoi atalnod e.e. , . ? neu ! cyn cau'r dyfynodau.

**TASG:**
**Ysgrifennwch y darn hwn yn gywir. Cofiwch y tair rheol!**

Roedd Olwen a Miriam yn brysur yn lapio'r anrheg dwi'n edrych ymlaen at weld wyneb Dad meddai Olwen a fi hefyd atebodd Miriam wyt ti'n meddwl y bydd e'n hoffi sanau unwaith eto eleni gofynnodd Olwen dwi ddim yn gwybod ond does dim dewis ganddo atebodd Miriam gyda gwên ar ei hwyneb.